Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Gwydir
# Heol Watling
# Llanrwst
# LL26 0EY

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Gwydir yng nghanol tref Llanrwst ac fe’i cynhelir gan Awdurdod Lleol Conwy. Daw 85% o’r disgyblion o’r dref ei hunan a 15% unai o’r ardal wledig neu o bentrefi cyfagos. Disgrifir yr ardal fel un nad yw’n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae 292 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 54 o blant meithrin yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i’r ysgol yn amser llawn yn y Medi y byddant yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed. Lleolir Canolfan Adnoddedig y dalgylch ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu yn yr ysgol ac mae 12 o ddisgyblion yn ei mynychu am bum bore’r wythnos.

Daw 21% o’r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf a’r gweddill o gartrefi ble mae’r Saesneg yn bennaf yn brif iaith gyfathrebu. Daw 3% o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu’r ysgol. Tua 16% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae’r ffigur hwn yn is na’r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae gan 29% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig gydag un disgybl ar ddatganiad.

Mae’r ysgol ar ddiwedd cynllun ailfodelu’r adeilad a gobeithir gorffen y gwaith adeiladu cyn y flwyddyn newydd.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Gwydir yw £3,702 sy’n cymharu ag uchafswm o £13,941 ac isafswm o £2,935 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghonwy. Yr ysgol sydd â’r gyllideb fesul disgybl 37 uchaf o’r 61 ysgol gynradd yng Nghonwy.

Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd yn Ionawr 1995.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr hydref 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar;
- bod y ddarpariaeth ar gyfer gwahanol garfannau o ddisgyblion, yr ystod eang o brofiadau gwerthfawr a gynigir a'r bartneriaeth â rhieni yn rhagoriaethau amlwg; ac
- addysgu o safon dda yn yr holl ddosbarthiadau a chefnogaeth effeithiol y cymorthyddion dysgu.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth a'r dirprwy adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol a gweledigaeth glir ynglŷn â datblygu'r ysgol i'r dyfodol;
- bod gweddill yr uwch dîm rheoli ynghyd â'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r un weledigaeth
- bod yr ysgol wedi adnabod yn gywir trwy ei hunanarfarniad a'i chynllun datblygu ysgol agweddau penodol i'w datblygu i'r dyfodol sydd ar waith yn barod; a
- parodrwydd yr ysgol i ymgorffori blaengareddau Cenedlaethol a lleol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen:

A1 parhau i wella cyflawniad ysgrifennu yn y Cyfnod Sylfaen;

A2 parhau i leihau'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau Cymraeg bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2; a

A3 rhannu arferion gorau'r addysgu drwy'r ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Dengys canlyniadau asesiadau sylfaen y plant ar fynediad i'r ysgol, fod llawer ohonynt â lefelau gweddol isel o allu yn y medrau sylfaenol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd ardderchog yn y Gymraeg ar lafar.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg mewn darllen. Mae'r canlyniadau ar gyfer ysgrifennu wedi gostwng yn raddol ers 2009. Nid yw'r ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth cystal â chyfartaledd ysgolion tebyg.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn yr holl bynciau yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg. Yn 2011 yn y Gymraeg, roedd canlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na'r merched.

Mae'r gwaith cyfredol mewn llyfrau'r disgyblion a thystiolaeth berthnasol arall yn dangos cynnydd arwyddocaol mewn safonau medrau'n gyffredinol. Mae'r cynnydd hwn yn amlwg yng ngwaith y disgyblion ar draws yr ysgol ac o ganlyniad i drefn effeithiol yr ysgol o dargedu carfannau penodol o ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Mae bron pob un yn cyfathrebu'n hyderus ac yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol i'w tasgau ac yn ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill yn synhwyrol. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau. Maent yn gallu ymateb i safbwyntiau eraill a chynnig cyfraniadau dilys eu hunain. Gallant gynnig cyfraniadau ystyrlon i drafodaethau mewn parau ac o fewn grwpiau penodol.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm. O fewn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen ac yn gallu eu defnyddio i wneud synnwyr o'r hyn sy'n cael ei ddarllen. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn uchel gyda rhuglder, cywirdeb a phwyslais a mynegiant cynyddol. O fewn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac yn gallu dewis a dethol rhannau penodol o lyfrau at eu defnydd o fewn eu gwaith. Ar frig yr ysgol, gallant chwilio am a choladu gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn hyderus ac mae trawsieithu yn digwydd yn rheolaidd ac yn effeithiol.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig effeithiol. Mae datblygiad ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg yn dangos cynnydd

arwyddocaol ers dechrau'r tymor yn dilyn targedu bwriadus ar ran yr ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu yn glir ac yn ddiddorol mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau. Mae'r holl ddisgyblion yn adolygu ac yn ailddrafftio eu gwaith yn effeithiol.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd ac yn effeithiol ac yn arddangos cynnydd amlwg yn eu cyflawniad o fewn sesiynau dysgu a thros gyfnod o amser.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion o dras ethnig lleiafrifol yn cyflawni'n dda.

Mae disgyblion sydd â'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn ymdrin â'r iaith Gymraeg yn hyderus yn fuan iawn ar ôl dechrau yn yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob plentyn ymwybyddiaeth dda o'r angen i fwyta'n iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd. Manteisia llawer ohonynt ar weithgareddau corfforol allgyrsiol niferus a gynigir gan yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch; maent yn gwybod sut i ddefnyddio'r systemau'r ysgol i leisio barn a phryderon ac i dynnu sylw at unrhyw achos o fwlian neu gamymddwyn.

Mae bron pob un o'r disgyblion a ymatebodd i'r holiadur yn datgan eu bod yn cael eu trin â pharch, eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda yn eu gwersi ac ar adegau llai ffurfiol. Mae'r disgyblion yn troi'n hyderus at oedolion am gymorth. Hefyd mae swyddogion o blith y disgyblion, sef 'Criw Clen', yn cynorthwyo disgyblion i gyd-chwarae ac yn cynnig cymorth i gyfoedion yn ôl yr angen.

Mae presenoldeb yr ysgol bron yn 95% ar hyn o bryd ac mae hwn yn gynnydd ar gyfartaledd presenoldeb o 93% yn 2009-10 ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais ac maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac o'r plant iau. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn ei hystyried yn lle hapus.

Mae'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco yn cwrdd yn rheolaidd ac yn gweithredu ffyrdd effeithiol o gaffael barn a sylwadau cyd-ddisgyblion ac o sicrhau fod y sylwadau yn cael eu clywed a'u hystyried. Sefydlodd y Cyngor Ysgol sawl gweithgaredd a phrosiect yn effeithiol gan gynnwys cynllun 'Mae'n gret bod yn fêt' a chlwb darllen. Mae cynllun mentergarwch, ble mae'r disgyblion yn gyfrifol am greu busnesau bychain, wedi galluogi'r disgyblion i godi arian i brynu offer newydd, a ddewisiwyd gan y disgyblion eu hunain.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ystod eang o brofiadau gwerthfawr sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion o fewn gwersi ac ymweliadau oddi ar safle'r ysgol yn eithriadol. Mae'r gweithgareddau

allanol ac allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol ymhell uwchlaw'r disgwyliadau. Maent yn cryfhau hyder y disgyblion ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn at eu hawydd i ddarganfod a dysgu.

Mae cynllunio manwl a dychmygus iawn ar draws y cwricwlwm yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio gan weithgareddau diddorol a symbylus. Cânt eu haddasu i gyd-fynd â diddordebau disgyblion. Mae datblygiad sgiliau a medrau allweddol wedi eu mapio yn effeithiol iawn gan sicrhau dilyniant da ar draws yr ysgol.

Mae gwahaniaethu o ansawdd uchel iawn yn digwydd yn yr ysgol sy'n diwallu anghenion yr holl disgyblion yn ardderchog. Ceir trefn effeithiol iawn o ffrydio disgyblion ar gyfer llythrennedd a rhifedd o flwyddyn 2 ymlaen a gwahaniaethu pellach o fewn y ffrydiau hynny, gan roi cefnogaeth ragorol i bob disgybl.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog ac ysgogol ar gyfer astudio'r amgylchedd lleol, a hanes a llên gwerin yr ardal ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r gwaith a wneir tuag at eisteddfodau lleol a chenedlaethol yn cynnig datblygiad diwylliannol rhagorol i'r plant o safbwynt yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau disgyblion ym maes addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol iawn drwy weithgareddau arloesol megis trefnu i fyfyrwyr tramor addysgu yn yr ysgol am gyfnodau, cynllun Comeniws, ymweliadau tramor i ddisgyblion a chynnal diwrnodau Ewropeaidd.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol drwyadl a disgwyliadau uchel sydd yn eu galluogi i ysbrydoli a herio'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblon sydd ag anghenion ychwanegol yn derbyn cynhaliaeth arbennig o dda ac mae disgyblion abl a thalentog yn cael eu hymestyn yn effeithiol. Mae cynllunio manwl yn sicrhau bod amcanion clir ar gyfer datblygu sgiliau penodol mewn gwersi a gweithgareddau ffocws. Mae perthynas waith arbennig o dda rhwng holl staff yr ysgol a'r disgyblion sydd yn seiliedig ar ymdrech a pharch. Mae disgwyliadau uchel o safbwynt ymddygiad a safonau yn esgor ar ethos gweithgar mewn dosbarthiadau. Gwneir defnydd effeithiol iawn o staff cymorth dysgu i gefnogi disgyblion. Mae'r gefnogaeth a gynigir ganddynt o safon uchel ac mae'n greiddiol i lwyddiant y disgyblion.

Gwneir defnydd da iawn o egwyddorion asesu ar gyfer dysgu drwy'r ysgol i ddatblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Mae pob aelod staff yn rhannu gwybodaeth asesu i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd yn unol â'u gallu. Mae gan bob disgybl dargedau personol perthnasol. Yn yr arfer orau, defnyddir cwestiynu treiddgar ac adborth llafar ac ysgrifenedig cyson ac adeiladol yn seiliedig ar ddeilliannau dysgu, meini prawf llwyddiant a thargedau unigol disgyblion. Gwenir defnydd effeithiol o bartneriaid trafod ac asesu cymheiriaid i sicrhau bod disgyblion yn chwarae rhan amlwg yn eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion fod yn ddigon gweithredol yn eu dysgu eu hunain mewn ambell ddosbarth.

Ceir systemau asesu a thracio o ansawdd uchel yn yr ysgol sy'n rhoi adnabyddiaeth gref a chyfredol o gyrhaeddiad pob disgybl. Defnyddir yr wybodaeth yma i gynllunio gwersi sy'n cwrdd ag anghenion ydisgyblion yn effeithiol. Caiff rhieni wybodaeth fanwl iawn am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant, ynghyd ag arweiniad rhagorol ar gydweithio gyda'r ysgol i sicrhau llwyddiant eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol bolisïau a threfniadau trwyadl ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion. Mae systemau arbennig yn yr ysgol ar gyfer hybu ymddygiad disgyblion, sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau ymddygiad drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn ofalgar iawn. Mae disgyblion yn deall eu hawl i fod yn ddiogel ac yn gwybod sut i ymateb os bydd unrhyw achos o fwlio neu anghyfiawnder. Mae cymorth wedi ei dargedu'n glir ar gyfer wahanol grwpiau o ddisgyblion a chydweithia'r ysgol yn dda gydag asiantaethau allanol ac yn rhagorol gyda'r rhieni. Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn un o brif lwyddiannau'r ysgol. Mae disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn cefnogaeth o safon uchel iawn. Gwneir defnydd dychmygus iawn o staff, adnoddau ac amrywiaeth o gynlluniau cynhaliol i sicrhau'r cyfleoedd cryfaf posibl i bob disgybl ddatblygu. Mae cynnydd disgyblion yn cael ei dracio'n fanwl iawn drwy gydol y flwyddyn gan addasu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth yn ôl y galw. Mae'r ysgol wedi ail strwythuro cynlluniau addysg unigol disgyblion yn effeithiol iawn. Maent yn cael eu hadolygu yn dymhorol a thrafodir cynnydd y disgyblion yn drylwyr gyda rhieni deirgwaith y flwyddyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol, cefnogol a chyfeillgar yn bodoli yn yr ysgol. Rhoddir pwyslais clir ar barch, dathlu amrywiaeth a chyfle cyfartal i bawb.

Mae'r adeilad mewn cyflwr ardderchog y tu mewn a'r tu allan yn dilyn rhaglen o adnewyddu dros sawl blwyddyn.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Defnyddir yr ardaloedd allanol yn effeithiol iawn ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau, er enghraifft gardd lysiau a ffrwythau, coedwig ac ardal antur.

Mae'r amgylchedd dysgu tu mewn yn ddeniadol iawn drwy'r ysgol ac yn creu awyrgylch arbennig. Mae pob dosbarth yn daclus a threfnus ac yn darparu cyfleoedd dysgu gwerthfawr i'r disgyblion. Mae arddangosfeydd o waith disgyblion yn chwaethus iawn ac yn rhoi bri a pharch i'w hymdrechion a'u llwyddiannau.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth a'r dirprwy weledigaeth glir ar sut i wella safonau a lles disgyblion. Caiff ei rhannu yn effeithiol gyda'r uwch dîm rheoli , staff a llywodraethwyr yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy, ynghyd â'r uwch dîm rheoli, yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol. Mae'r cynlluniau strategol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a darpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gosod targedau a disgwyliadau heriol ar gyfer yr ysgol gyfan. Maent yn sicrhau fod eu heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro yn rheolaidd ac unrhyw ddatblygiadau pellach yn cael sylw. Mae'r drefn o rannu cyfrifoldebau yn effeithiol gyda phob aelod o staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu tuag at agweddau o reolaeth ar draws yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn cael eu hadlewyrchu o fewn y targedau a osodir.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda gan y llywodraethwyr. Maent yn gwybod yn dda am berfformiad yr ysgol trwy ystyried data diwedd cyfnod allweddol yn ogystal â thystiolaeth bellach. Maent yn barod i herio a chefnogi'r ysgol er mwyn arfarnu ac adnabod cynnydd ac i ysgogi gwelliannau.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael eu hadnabod a'u cynnwys yn dda o fewn strategaethau gwella llythrennedd, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a gweithgareddau cyfredol eraill.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol. Mae'r trefniadau yn gadarn, ac yn cynnwys ymweliadau a dosbarthiadau, gwirio gwaith a dehongli data. Mae tystiolaeth uniongyrchol yn cael ei chasglu a'i defnyddio yn effeithiol i adnabod cryfder a meysydd ar gyfer gwelliant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr ac yn arenwi'n eglur yr elfennau sy'n gryfderau amlwg a'r meysydd i'w datblygu'n bellach. Cesglir cyfraniadau llywodraethwyr, rhieni, disgyblion ac eraill yn ofalus er mwyn ffurfio barn a chyfrannu tuag at adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllunio a sicrhau gwelliant.

Mae'r prif flaenoriaethau yn glir ac mae'r ysgol yn nodi cynnydd y disgyblion yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Sicrha gymuned ddysgu broffesiynol fewnol yr ysgol fod y staff yn datblygu a rhannu gwybodaeth berthnasol yn effeithiol. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhwydwaith o ysgolion eraill yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at sicrhau bod arferion da yn cael eu mabwysiadu gan yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae partneriaethau strategol yr ysgol â'r rhieni, y gymuned a mudiadau eraill yn un o gryfderau'r ysgol ac yn arwain y sector.

Mae gweithgareddau'r bartneriaeth yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at ehangu'r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac o ganlyniad, yn cyfrannu yn dda iawn tuag at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn eithriadol o gref ac yn dylanwadu yn effeithiol iawn ar gyflawniad a lles disgyblion drwy'r ysgol. Llwydda'r ysgol i gynnwys y rhieni bron ym mhob agwedd o'i gwaith. Mae'r ystod eang o amrywiol bamffledi ac arweiniad ynglŷn â chynlluniau penodol i gydweithio ar waith cartref o safon uchel iawn. Cynigir cyfleoedd rheolaidd ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol am y cwricwlwm a dulliau diweddaraf o gyflwyno gwaith. Gwneir hyn trwy gyfuniad o gyfarfodydd torfol a thrwy lyfrynnau pwrpasol. Cydweithir gyda'r rhieni hefyd yn y broses o gynllunio cwricwlaidd wrth drefnu gweithgareddau a phrofiadau oddi ar y safle. Sicrha'r ysgol le penodol i'r rhieni yn ei threfniadau i adnabod carfannau gwahanol o ddisgyblion ac mewn gosod targedau ar eu cyfer. Gwneir defnydd rhagorol o arbenigedd rhieni i gyfoethogi profiadau dysgu o fewn themâu penodol. Mae'r bartneriaeth gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn dda iawn ac maent yn codi arian sylweddol ar gyfer ehangu a gwella adnoddau.

Ceir partneriaeth gref gyda nifer o sefydliadau lleol a'r gymdeithas yn gyffredinol ac mae'r ysgol yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol. Mae'r cysylltiadau hyn yn dylanwadu yn gadarnhaol ar gyfoethogi profiadau disgyblion ac ansawdd yr addysg.

Mae trefniadau da wedi eu sefydlu gyda'r ysgol feithrin gyfagos, ar gyfer croesawu disgyblion newydd i'r ysgol, a cheir trefniadau cadarn i sicrhau bod y disgyblion hŷn yn symud yn esmwyth i'r ysgol uwchradd.

Mae yna bartneriaethau effeithiol gydag ysgolion cyfagos. Enghraifft nodedig o hyn yw rôl arloesol yr ysgol mewn creu grŵp asesu o fewn y cymunedau dysgu lleol ynghyd â datblygu strategaethau ar gyfer hybu sgiliau meddwl. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau drwy'r ysgol.

Bu'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o sefydlu 'r drefn o gymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol dau yn y pynciau craidd gyda'r ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae defnydd effeithiol yn cael ei wneud o adnoddau a'r adeilad i hyrwyddo dysgu da a safonau uchel gan ymateb i anghenion grwpiau unigol yn hynod effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigedd athrawon a staff cynorthwyol gan sicrhau y gellir cyflwyno pob agwedd o gwricwlwm yr ysgol i bob disgybl. Defnyddir yr amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn dda gan sicrhau ansawdd uchel o ddarpariaeth ac adnabyddiaeth glir o gyraeddiadau ac anghenion pob disgybl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd trefn yr ysgol o gynllunio ac asesu.

Mae’r corff llywodraethol yn gosod cyllideb yn ofalus ac yn cytuno ar flaenoriaethau ariannol ar gyfer y flwyddyn. Mae’r ysgol yn llwyddiannus yn y modd y targedir y cyllid sydd ar gael i ymateb i’r blaenoriaethau fel y’u nodir yn y cynllun datblygu’r ysgol.

Yn sgil safonau cyraeddiadau a lles da y disgyblion a’r defnydd effeithiol o arian wrth gefn i ymateb i'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu, mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg mewn darllen. Mae'r canlyniadau ar gyfer llafaredd ac ysgrifennu yn is na'r teulu ysgolion.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn mathemateg, gwyddoniaeth ac o fewn y dangosydd pwnc craidd (y perfformiad disgwyliedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na'r teulu. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran y nifer o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mhob pwnc.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig eleni yng nghyfnod allweddol 1 yn is na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched gyda'r bechgyn ychydig yn well na'r merched mewn Cymraeg a gwyddoniaeth gyda'r merched ychydig yn well mewn mathemateg a darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 1 dros bedair blynedd wedi gostwng ychydig yn y Gymraeg o 96.4% yn 2008 i 91.2% yn 2011. Bu'r canlyniadau yn is na'r teulu ers 2009 ond yn uwch na Chymru ac eithrio 2010. Mae'r gostyngiad mwyaf wedi bod yn safon yr ysgrifennu.

O fewn Mathemateg a gwyddoniaeth mae'r canlyniadau wedi bod yn weddol gyson ar y cyfan dros y pedair blynedd, yn is na'r teulu eleni ond yn uwch yn 2009 a 2010 ac yn gyson uwch na Chymru.

Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o fewn yr holl bynciau a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn uwch na'r teulu o ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn Saesneg a'r 50% uchaf mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae'r ganran sy'n cyrraedd tu hwnt i'r lefel ddisgwyliedig eleni yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na'r teulu a Chymru ym mhob pwnc ond y Gymraeg.

Gwelwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn 2011 o fewn y Gymraeg gyda chanlyniadau'r bechgyn yn sylweddol is na'r merched.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 dros bedair blynedd wedi bod yn weddol wastad. Mae'r ysgol wedi bod yn uwch na'r teulu a Chymru ers 2008 ac

eithrio 2010 pan welwyd gostyngiad o'r cyffredin. Yr union batrwm a welwyd mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. O fewn Saesneg bu'r ysgol yn gyson is na'r teulu a Chymru ers 2008 hyd at 2011 pan welwyd cynnydd sylweddol sy'n rhoi'r ysgol yn uwch na'r teulu a Chymru. O fewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r canlyniadau wedi bod yn weddol gyson, yn is na'r teulu yn 2009 a 2010 ond yn uwch yn 2008 a 2011.

Nid oes gwahaniaethau amlwg o fewn y data ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn gysylltiedig â grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion â hawl i ginio am ddim a disgyblion anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae'r disgyblion hyn ar y cyfan yn llwyddo i gyrraedd lefelau sy'n unol â'u gallu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Daeth 28 o ymatebion i law. Mae bob un yn datgan fod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae bron pob rhiant a ymatebodd yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac o'r farn fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda.

Mae' bron pob rhiant hefyd o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n effeithiol ac yn annog y plant i weithio'n galed. Maent yn hapus â'r cynnydd a wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt. Credant hefyd fod yr addysgu yn dda a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae bron pob un yn hapus â'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd 84 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad. Mae'r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Dywedant fod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae bron bob un o'r farn fod yr athrawon yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach. Maent yn gwybod ble i droi am gefnogaeth pan fyddant yn gofidio neu yn gweld y gwaith yn anodd.

Oddeutu 75% o ddisgyblion ymatebodd drwy'r holiadur fod ymddygiad yn dda o fewn yr ysgol ac nad oes camymddwyn yn effeithio ar eu gallu i weithio. Nid dyma ganfyddiad y tîm arolygu ar sail arsylwi o fewn dosbarthiadau ac o ganlyniad i holi dysgwyr wyneb yn wyneb.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Stella Gruffydd | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Roberts Alun Williams (Pennaeth) | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |